CYFRES C12

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Luc 2: 1-7

Mae'r stori hon yn sôn am:
Geni Iesu.

Stori 1 Duw yn anfon Ei Fab, Iesu

Ble cawsoch chi eich geni?
Gartref neu mewn ysbyty, efallai.
Pan fydd y rhan fwyaf ohonom ni'n cael ein geni, bydd meddygon a nyrsys wrth law i wneud yn siŵr fod popeth yn mynd yn iawn.

Nid felly roedd hi pan anwyd Iesu!

Roedd y llywodraethwyr Rhufeinig eisiau gwybod faint o bobl oedd yn byw yn eu hymerodraeth. Felly, dyma nhw'n gorchymyn i bawb fynd yn ôl i'w tref enedigol. Roedden nhw i gael eu cyfrif yno.

Bu'n rhaid i Joseff a Mair deithio o Nasareth i Fethlehem, y dref lle ganwyd Joseff.

Ganwyd Iesu pan oedd Mair a Joseff yn ymweld â Bethlehem.

Daeth Iesu, Mab Duw i'r byd tra'r oedd Mair a Joseff ymhell oddi cartref, heb ystafell na gwely go iawn, nac ychwaith unrhyw feddygon na nyrsys wrth law.

Gosodwch y geiriau hyn yn y mannau cywir er mwyn cwblhau'r frawddeg sy'n dilyn.

preseb gwesty dillad

Rhwymodd Mair Iesu mewn __ __ ___ __ __ baban
a'i osod mewn __ __ __ __ __ __,
am nad oedd lle iddynt yn y __ __ __ __ __ __.

Enw

DARLLENWCH
Luc 2: 8-15

Mae'r stori hon yn sôn am:
Yr angylion yn ymddangos i'r bugeiliaid.

Stori 2 Duw yn anfon Iesu, y Gwaredwr

Pan anwyd Iesu, cyhoeddodd angel y newyddion da am Ei eni wrth griw o fugeiliaid yn gyntaf.

Lliwiwch y llun a'r tri enw arbennig am Iesu a ddefnyddiwyd gan yr angel.

"Ganwyd i chwi heddiw
Waredwr,
yr hwn yw'r
Meseia,
yr
Arglwydd."

Yna, ymddangosodd llu o angylion yn yr awyr yn moli Duw am eni'r Arglwydd Iesu. Clywodd y bugeiliaid fod y Baban wedi Ei eni ym Methlehem a bod modd iddyn nhw gael hyd Iddo wedi Ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb.

Ym mha dref y cafodd Iesu Ei eni?

_ _ __ _ _ _ _ _ .



Aeth yr angylion yn ôl i'r Nefoedd a dyma'r bugeiliaid yn penderfynu mynd i weld y Baban drostynt eu hunain.

Enw

DARLLENWCH
Luc 2: 16-20

Mae'r stori hon yn sôn am:
Ymwelwyr cyntaf y Baban Iesu.

Stori 3 Y Bugeiliaid yn dod o hyd i Iesu

Pan glywodd y bugeiliaid y newyddion da am Iesu, roedden nhw'n awyddus iawn i fynd i weld y Baban drostynt eu hunain.

Felly, dyma nhw'n brysio i Fethlehem ac fe gawson nhw hyd i'r Baban – yn union fel y dywedodd yr angel wrthyn nhw!

Pan welon nhw Iesu, doedden nhw ddim yn gallu cadw'r newyddion da hyn iddyn nhw eu hunain!

Adroddon nhw'r hanes am y cyfan a welsant ac a glywsant wrth bob un o'u cwmpas.

Roedd pawb a glywodd eu newyddion yn rhyfeddu!

Rhaid bod Mair a Joseff wedi eu synnu pan glywson nhw'r hanes gan y bugeiliaid. Ond buodd Mair yn meddwl yn hir am bopeth a ddigwyddodd.

Rhowch gylch o gwmpas yr atebion cywir.

Pwy ruthrodd i Fethlehem i chwilio am y Baban?

Mair **Joseff** **Y bugeiliaid**

Pwy fuodd yn meddwl yn hir am y cyfan a ddigwyddodd?

Mair **Joseff** **Y bugeiliaid**

Dyna beth oedd cyfnod cyffrous yn hanes y bugeiliaid! Nawr, gan eu bod wedi gweld Iesu drostynt eu hunain, fyddai pethau fyth yr un peth!

Unwaith y byddwn ni wedi dod i adnabod yr Arglwydd Iesu fel ein Gwaredwr, cawn ninnau hefyd ein newid. Fydd ein bywydau ni fyth yr un peth ar ôl i hynny ddigwydd!

Enw _____

DARLLENWCH
Marc 1: 1-9

Mae'r stori hon yn sôn am:
Iesu yn Afon yr Iorddonen.

Stori 4 Ioan yn bedyddio Iesu

Tua 30 mlynedd ar ôl geni Iesu, dechreuodd Ioan Fedyddiwr baratoi pobl ar gyfer yr adeg pan fyddai'r Arglwydd yn dod. Roedd Ioan wedi bod yn byw yn yr anialwch, yn bwyta locustiaid a mêl gwyllt. Gwyddai fod yr Un oedd i ddod yn bwysicach o lawer nag ef.

Bedyddiwyd Iesu gan Ioan yn Afon yr Iorddonen. Doedd Ioan ddim yn gallu deall pam fod angen i Rywun mor arbennig gael Ei fedyddio.

Er bod Iesu yn berffaith ac yn Un na fyddai fyth angen maddeuant, doedd E ddim am ymddangos yn falch neu uwchlaw pobl gyffredin. Felly, o gael Ei fedyddio, roedd Iesu yn dangos Ei fod eisiau adnabod pobl bechadurus fel chi a fi!

Do, darostyngodd Iesu, Mab Duw, Ei Hun, gan farw ar y Groes yn y diwedd, er mwyn i ni dderbyn maddeuant am ein pechodau a dod yn ffrindiau gyda Duw.

Heddiw, 2000 o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae miliynau o bobl yn adnabod ac yn caru'r Arglwydd Iesu. Ydych chi'n Ei adnabod ac yn Ei garu fel eich Gwaredwr a'ch Arglwydd?

Ysgrifennwch CYWIR neu ANGHYWIR wrth ymyl y brawddegau canlynol:-

Roedd angen maddeuant ar yr Arglwydd Iesu. .....

Mae angen maddeuant arnom ni. .....

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120